# Adroddiad Blynyddol Cynghorydd Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

**Cynghorydd D M Hughes** **Ward: Cwm Ogwr**

**Plaid: Annibynnol**

Mae'r adroddiad hwn yn nodi fy ngweithgareddau allweddol yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben **2023.** Fe'i darperir er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid at unrhyw ddiben arall. Barn y Cynghorydd yw'r farn a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o reidrwydd yn adlewyrchu barn Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

**Rôl a Chyfrifoldebau**

Cefais fy ethol i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i gynrychioli Cwm Ogwr ar 5 Mai 2022. Rwyf wedi ymgymryd ag amrywiaeth o rolau o fewn y Cyngor eleni gan gynnwys cael fy mhenodi'n aelod o sawl pwyllgor.

Rwyf wedi cefnogi preswylwyr fy ward ar amrywiaeth o faterion ac wedi codi 198 o ymholiadau etholwyr yn ffurfiol gyda'r Cyngor a sefydliadau eraill. Rwyf hefyd wedi ymdrin yn anffurfiol â nifer o faterion eraill y mae preswylwyr wedi gofyn i mi eu helpu i'w datrys.

I'm galluogi i gyflawni fy rôl, rwyf wedi mynychu nifer o Weithgareddau Datblygu Aelodau sydd wedi fy helpu i sicrhau fy mod yn cynnal fy ngwybodaeth am faterion cenedlaethol a lleol sy'n effeithio ar y Cyngor ac ar fy ward.

Mae rhagor o wybodaeth am fy **rolau, cyfrifoldebau a gweithgareddau** i'w gweld drwy ddilyn y ddolen hon.

**Gweithgaredd yn yr Etholaeth**

Rwyf wedi datblygu a chryfhau cysylltiadau â grwpiau a sefydliadau lleol.

Mae cyfathrebu â phreswylwyr yn allweddol ac rwyf wedi cynnal sesiynau galw heibio rheolaidd yng Nghanolfan Bywyd Cwm Ogwr, wedi cynhyrchu cylchlythyr ac wedi rhoi gwybodaeth i bobl drwy'r cyfryngau cymdeithasol.

Rwyf wedi gweithio, ac rwy'n parhau i weithio'n agos gyda Gwell Bysiau ar gyfer Cwm Ogwr o ran gwasanaethau bysiau.

Mae'r grŵp amgylcheddol Ogmore Valley Priide yn gweithio'n eithriadol o galed yn ein cwm, ac rwyf wedi cysylltu â Chyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ynghylch llawer o faterion amgylcheddol.

Rwyf wedi ymweld ag Ysgol Gynradd Cwm Ogwr yn rheolaidd er mwyn cefnogi'r ysgol ar ei thaith 'gwella ysgolion' barhaus.

Rwyf wedi mynychu nifer o ddigwyddiadau lleol.

**Mentrau a Gweithgareddau Arbennig**

Mae ymweld â'r ysgol bob amser yn arbennig ac rwyf wedi bod yn ddigon ffodus i ymweld â dosbarthiadau er mwyn siarad am fy rôl fel cynghorydd. Roeddwn i hefyd ar banel digwyddiad Dragon's Den (roedd yn benderfyniad mor anodd) ac roedd y plant yn anhygoel. Pan ofynnwyd i mi farnu dadl, cefais fy synnu gan sgiliau'r plant.

Cysylltodd rhai o'r plant hŷn â mi yn uniongyrchol fel rhan o brosiect ysgol a gyda'n gilydd fe wnaethon ni gysylltu â grŵp crefft lleol. Mae'r grŵp wedi gweithio gyda'r plant dros sawl wythnos; maent wedi cynhyrchu dillad o ddeunyddiau wedi'u hailgylchu yn barod ar gyfer sioe ffasiwn diwedd tymor. Mae'r manteision i bawb yn amlwg ac mae'n hyfryd gweld cenedlaethau'n cydweithio. Dyma wir ymdeimlad o gymuned.

Yn ystod y misoedd diwethaf rwyf wedi bod yn trafod adfywio ardal Park Avenue gyda'r sawl sydd â diddordeb ac rwy'n edrych ymlaen at gefnogi'r gymuned gyda'r prosiect hwn.

**Gweithgareddau/Materion Eraill**

Rwyf allan yn y ward yn aml yn sgwrsio â phreswylwyr. Rwy'n mwynhau cerdded, rhedeg a beicio. Ym mis Medi, byddaf yn cymryd rhan yn y digwyddiad 'The Lap', sef cylchdro 75k o amgylch Llyn Windermere. Bydd unrhyw arian a gaiff ei godi'n cael ei roi i elusennau lleol.

**Cynghorydd D M Hughes** **Dyddiad: 19/06/2023**